



Llawlyfr y Fforwm Rheini/ Gwarcheidwaid





Datganiad gan Gorff Llywodraethol Ysgol Gyfun Aberaeron

Yr ydym ni, y corff llywodraethol, yn sylweddoli bod gweithio mewn partneriaeth â'n holl randdeiliaid yn hynod o bwysig os ydym i sicrhau bod Ysgol Gyfun Aberaeron yn gallu darparu'r addysg a'r cyfleon gorau ar gyfer ein disgyblion. Bydd y fforwm hwn yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a rhieni a gwarcheidwaid ein disgyblion fel y gallant barhau i gael budd o ddarpariaeth gyffrous sy'n datblygu'n gyson.


Datganiad gan y Prifathro

Credaf yn gryf fod llwyddiant disgybl yn yr ysgol yn ganlyniad tri pheth sy'n ymblethu - y ddarpariaeth a gynigir gan yr ysgol, ymdrech ac agwedd yr unigolyn, a chefnogaeth ac arweiniad y cartref. Er mwyn i ni allu gwella ein darpariaeth, mae angen i ni wrando ar ein staff, ar ein disgyblion, ac ar eu rhieni a'u gwarcheidwaid hwy. Bydd y fforwm hwn yn ein cynorthwyo wrth i ni roi sylw i'r trydydd peth, a bydd yn ein galluogi i glywed barn, beirniadaeth a syniadau ein rhieni a'n gwarcheidwaid yn ystod y flwyddyn academaidd. Rwy'n edrych ymlaen at eich croesawu i'r ysgol ac at weld y bartneriaeth rhwng Ysgol Gyfun Aberaeron a rhieni a gwarcheidwaid ein disgyblion yn mynd o nerth i nerth.

Datganiad gan Ms Crouch

Er mwyn parhau i wneud Ysgol Gyfun Aberaeron yn amgylchedd dysgu blaengar sy'n edrych tua'r dyfodol ar gyfer y disgyblion a'r staff fel ei gilydd, mae'n hanfodol fod llwyfan adeiladol yn cael ei datblygu lle y gall y rhieni a'r gwarcheidwaid fynegi barn, trafod syniadau a gweithio mewn partneriaeth â'r staff dysgu, y llywodraethwyr a'r Uwch Dîm Arwain i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol a chyfrannu ato. Mae gennych ran allweddol i'w chwarae wrth gyfoethogi a chryfhau bywyd yr ysgol; mae gennych wybodaeth unigryw am brofiadau eich plentyn a'm dymuniad yw gweithio gyda chi i gyd er mwyn harneisio'r wybodaeth ddigymar hon a'i defnyddio i ddatblygu profiadau ein disgyblion yn yr ysgol. Dim ond trwy weithio gyda'n gilydd a thrwy greu perthynas gref a chydlynus sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch y gellir cyflawni hyn.

"Mae ymgysylltiad y rhieni â dysgu'r plentyn yn gwneud gwahaniaeth - dyma'r cyfrwng gwella mwyaf nerthol sydd gan yr ysgol."



Amcan

Gweledigaeth Ysgol Gyfun Aberaeron yw datblygu amgylchedd dysgu blaengar sy'n edrych tua'r dyfodol ac sy'n cwrdd ag angenhion y gymuned a'n disgyblion i gyd. Bydd y Fforwm Rhieni/gwarcheidwaid yn atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng y rheini/gwarcheidwaid a'r ysgol. Y syniad pwysicaf yw y bydd y fforwm yn cynnig cyfle i'r rhieni a'r gwarcheidwaid i gyfrannu at fywyd yr ysgol. Bydd y fforwm yn ceisio annog rhieni a gwarcheidwaid i gymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn rhoi cyfle i chi fynegi eich barn ar agweddau penodol ar fywyd yr ysgol yn ogystal.

Mae ein partneriaeth agos â'r cartref yn bwysig i ni; y mae'n helpu ac yn cyfrannu at les a llwyddiant ein holl ddisgyblion. Y mae'n hanfodol ein bod yn ymdrechu i gryfhau'r berthynas er lles addysgol a phersonol eich plentyn.

Beth yw'r Fforwm Rhieni/gwarcheidwaid?

Bydd y fforwm yn grŵp anffurfiol lle y gall y rhieni/gwarcheidwaid a'r staff gydweithio er mwyn:

- Trafod materion ar agenda'r cyfarfodydd
- Cynnig barn ar agweddau ar fywyd yr ysgol e.e. polisiau'r ysgol

Pwy sy'n aelod?

Mae rhiant/gwarcheidwad pob dysgwr ar gofrestr yr ysgol ar dir i fod yn aelod. Mae gennych chi fel rhiant/gwarcheidwad hawl i roi cyngor a gwybodaeth am yr addysg.


Cynhelir cyfarfod o'r fforwm rhieni o leiaf unwaith bob tymor ysgol.

Bydd yr ysgol yn rhoi rhybudd ysgrifenedig cyn pob cyfarfod ac yn nodi'r materion sydd i'w trafod.

Caiff y cyfarfodydd eu harwain gan aelodau o dîm arwain yr ysgol fel sy'n briodol i'r pwnc/pynciau dan sylw.

Ni ddylai rhieni/gwarcheidwaid gyfeirio at unigolion yn eu sylwadau a'u trafodaethau.

Ni fydd modd ystyried materion newydd a gyflwynir gan rhieni/gwarcheidwaid yn ystod y cyfarfodydd ond gellir ychwanegu materion i'w trafod at yr agenda cyn y cyfarfod.



Ar ddiwedd y cyfarfod cytunir ar ddatganiad am ganlyniad/au'r trafodaethau, i'w ystyried gan gorff llywodraethol yr ysgol a/neu yr Uwch Dîm Arwain, fel sy'n briodol. Bydd y datganiad ar gael a gall unrhyw riant/gwarcheidwad a fethodd â dod i'r cyfarfod ofyn amdano.

Materion i'w hystyried

Bydd cyfle i rieni a gwarcheidwaid gyfrannu at yr agenda. Gellir gwneud hyn:

- Ar ddiwedd cyfarfod; caiff y rhieni gyfle i gynnig syniadau i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y fforwm.
- Gall y rhieni anfon awgrymiadau trwy e-bost cyn mynychu'r fforwm (Dylid cyflwyno awgrymiadau bythefnos o leiaf cyn y cyfarfod gan y bydd angen amser i baratoi agenda a'i chylchredeg).

Sylwer: pennir agenda ar gyfer y cyfarfodydd a chaiff pob rhiant/gwarcheidwad gyfle i godi materion i'w trafod trwy ddilyn y dulliau uchod. Pan fyddwch yn mynychu cyfarfodydd y fforwm, gofynnwch gwestiynau sy'n ymwneud â'r agenda, os gwelwch yn dda. Os bydd unrhyw faterion yn codi nad ydynt yn ymwneud yn benodol â'r agenda, ac os bydd angen ateb manwl, gofynnir yn garedig i chi ganiatáu i'r staff lunio eu hymateb erbyn dyddiad a gaiff ei gytuno.

Caiff yr agenda ei chyhoeddi cyn pob cyfarfod trwy:

- Gylchlythyr at y rhieni
- Cyfryngau cymdeithasol
- Gwefan yr ysgol


Bydd cofnodion y cyfarfodydd ar gael ar wefan yr ysgol.

Cyfarfodydd

2018/2019	Dyddiad	Pwnc
Cyfarfod 1	Ionawr 24ain	Cysylltiadau cartref-ysgol
Cyfarfod 2	Mawrth 28ain	I'w bennu
Cyfarfod 3	Mehefin 13eg	I'w bennu

Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 6pm ac yn para am awr

Bydd agenda benodol ar gyfer pob cyfarfod - yn ymateb i ddymuniadau rhieni/gwarcheidwaid, y staff, yr Uwch Dîm Arwain a'r llywodraethwyr.



Mynychu cyfarfodydd

Rhaid i'r rhieni sy'n dymuno mynychu'r cyfarfodydd ddynodi eu bwriad trwy un o'r dulliau hyn:

- Cysylltu â swyddfa'r ysgol: 01545 570 217
- E-bostio'r Swyddog Cysylltiadau Cartref-Ysgol:
fforwm@ygaberaeron.org.uk

Nid yw'r Fforwm Rhieni yn

Nid yw'r Fforwm Rhieni yn llwyfan sy'n rhoi cyfle i rieni a gwarcheidwaid gwyno am aelodau unigol o'r staff ac nid oes iddo swyddogaeth ychwaith wrth ymwneud â chwynion gan rieni unigol. Dylai rhieni ddilyn trefn gwyno gydnabyddedig yr Ysgol os bydd ganddynt gŵyn yn erbyn y Prifathro, aelod o'r staff, y Corff Llywodraethol neu'r Ysgol. Bwriedir i'r Fforwm Rhieni wneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd yr Ysgol trwy roi cyfle i'r rhieni a'r gwarcheidwaid fynegi eu barn.

Nid corff codi arian yw'r Fforwm Rhieni.


Swyddogaeth y Fforwm Rhieni

Nid corff sy'n gwneud penderfyniadau yw'r Fforwm Rhieni ond cyfle i ddylanwadu ar y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rhedeg ac i gyfrannu at hyn. Y Corff Llywodraethol sy'n gwneud penderfyniadau. Swyddogaeth ymgynghorol a chynghorol sydd gan y Fforwm Rhieni. Y mae'n gyfrwng sy'n rhoi llais cryfach i rieni a gwarcheidwaid ac yn eu galluogi i fynegi eu barn ac i ddylanwadu ar benderfyniadau. Y rhieni a'r gwarcheidwaid sy'n ysgogi popeth y mae eu plant yn ei gyflawni ond gallant ysgogi gwelliannau i systemau'r ysgol gyfan.

"Ar ddiwedd y dydd yr allwedd amlycaf i lwyddiant plentyn yw ymgysylltiad cadarnhaol y rhieni"

Jane D. Hull

Cyswllt:



Swyddfa'r ysgol

Rhif ffôn: 01545 570217 **E-bost:** swyddfa@ygaberaeron.org.uk

Swyddog cysylltiadau Cartref-Ysgol

E-bost: fforwm@ygaberaeron.org.uk

Gwefan yr ysgol

www.ygaberaeron.org.uk